



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council



Fersiwn 2

DATGANIAD LLESANT

1. Rhagair

- 1.1. Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rwyf yn falch o gyflwyno'r Datganiad Llesiant hwn sy'n gosod allan ein nodau llesiant i'r gymuned dros y bum mlynedd nesaf. Canlyniad blwyddyn o waith a mwy yw'r nodau, yn cynnwys ymgynghoriad helaeth ac ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid, ac rwyf yn hyderus bod ein nodau llesiant yn gosod y sylfaeni ar gyfer Cynllun y Cyngor effeithiol.
- 1.2. Mae ein nodau llesiant yn ceisio sicrhau gwelliannau a gynhelir o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, diwyllianol ac amgylcheddol y bobl sy'n byw a gweithio ym Merthyr Tudful heddiw ac yn y dyfodol. Mae'r canolbwynt ar gefnogi pobl pan maen nhw angen hynny fwyaf, a'u cyfarparu nhw â'r sgiliau y maen nhw eu hangen i fyw bywydau llawn.
- 1.3. Mae ein nodau llesiant wedi eu paratoi yn ystod adeg o newid ac ansicrwydd mawr yn dilyn penderfyniad y DU i adael Ewrop. Ni fu gwneud pethau gwahanol, gweithio'n fwy deallus, defnyddio'n hasedau'n well yn fwy pwysig erioed. Mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu gwneud defnydd effeithiol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddiogelu llesiant Merthyr Tudful heddiw ac yn yr hir dymor.
- 1.4. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno cyfle i ni weithio'n wahanol wrth ddarparu ein Cynllun y Cyngor. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r 5 ffordd o weithio a sicrhau fod y 7 nod llesiant bob amser wrth galon yr hyn a wnawn.

Gareth Chapman
Prif Weithredwr



2. Cyflwyniad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 2.1. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Am y tro cyntaf yn ôl y gyfraith bydd rhaid i gyrrff cyhoeddus gael gweledigaeth a rennir a diben cyffredin.
- 2.2. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant mewn lle i sicrhau ein bod ni oll yn gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth a rennir. Mae disgrifydd gan bob un o'r nodau er mwyn adeiladu dealltwriaeth gyffredin ([Atodiad I](#)).
- 2.3. Mae'r Ddeddf yn gosod goblygiad cyfreithiol ar gyrrff cyhoeddus i fabwysiadu'r egwyddor datblygiad cynaliadwy wrth osod nodau llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r nodau hynny. Yn y Ddeddf, caiff yr egwyddor¹ datblygiad cynaliadwy ei henghreiffio gan bum ffordd o weithio ([Atodiad II](#)).

Datganiad Llesiant

- 2.4. Yn ein datganiad llesiant rydym yn gosod allan rychwant pob nod llesiant ac yn amlinellu pam ein bod ni'n ystyried fod cyflawni'r nod hwnnw'n gwneud y mwyaf o'n cyfraniad tuag at gyflawni'r saith nod llesiant.
- 2.5. Mae'r datganiad llesiant yn mynegi'n glir y cysylltiadau rhwng bob un o'n nodau llesiant a fydd yn helpu i sicrhau dull gweithredu integredig a chydweithredol tuag at gyflawni bob un o'r saith nod llesiant.
- 2.6. Yn yr hir dymor, mae ein nodau llesiant yn ceisio sicrhau ein bod ni'n cadarnhau gwelliannau ar draws bob un o'r pedwar piler llesiant (economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) i bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful heddiw ac yn y dyfodol.

¹ Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn gosod allan pum ffordd o weithio i'n helpu ni i weithio gyda'n gilydd yn well, gan osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hir dymor yr ydym yn eu hwynebu.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

- 2.7. Fel corff cyhoeddus, mae angen i ni sicrhau fod y ffordd yr ydym yn gweithio yn alinio ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r ffordd yr ydym wedi cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod allan ein nodau yn cynnwys:



Cynnwys

Cynnwys pobl sy'n ymweld â, byw a gweithio ym Merthyr Tudful wrth i ni gyflawni ein hasesiad llesiant. Roedd y cynnwys lleol yn canolbwyntio ar ddeall llesiant personol a chynhyrchu deallusrwydd yn seiliedig ar gryfder drwy ofyn cwestiynau fel "Beth sy'n dda yn eich cymunedau?" a "Beth fyddai'n gwneud eich cymunedau'n well?"



Cydweithio

Gwnaethom ni gydweithio gydag uwch swyddogion ledled yr Awdurdod wrth ddadansoddi'r wybodaeth asesu a datblygu nodau llesiant. Mae hyn yn ein helpu ni i gynyddu ymwybyddiaeth a phrofiad ymarferol o'r 5 ffordd o weithio ar draws y gwasanaethau.



Integreiddio

Integreiddio adnoddau oddi fewn i'r Awdurdod i wneud y mwyaf o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth gyfunol i helpu adeiladu nodau llesiant a gaiff eu deall yn gyffredin.



Atal

Mae lleihau'r posibilrwydd o weithio 'silo' drwy gynnwys yr holl wasanaethau sy'n gallu cyfrannu at gyflawni nod llesiant wedi ein helpu ni i gydweithio'n well, sicrhau canolbwyntio ar atal, a dod i benderfyniadau sy'n fwy integredig a chydweithredol.



Hirdymor

Mae defnyddio rhagolygon y boblogaeth ar gyfer y fwrdeistref sirol wedi helpu i sicrhau ffocws ar yr amodau angenrheidiol gofynnol yn yr hirdymor i dyfu a chadw'r boblogaeth oedran gwaith.

3. Nodau Llesiant

Llesiant ym Merthyr Tudful

3.1. Er mwyn gosod allan ein nodau llesiant gwnaethom gyflawni asesiad llesiant ledled Cwm Taf². Yn ychwanegol, rydym wedi bod yn gweithio ynghyd gyda phreswylwyr i sefydlu dealltwriaeth waelodlin ynghylch llesiant ym Merthyr Tudful. Mae'r wybodaeth hon wedi helpu i siapio nodau llesiant, deall ymatebion posibl i wella llesiant a gosod sgôr llesiant ar gyfer y boblogaeth. Yn gryno, mae ein nodau llesiant yn cynnwys pedwar prif grŵp:

3.2. Y Dechrau Gorau i Fywyd

- Plant yn cael y dechrau gorau i'w bywyd
- Mae plant a phobl ifanc wedi eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus

3.3. Bywyd Gwaith

- Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: Datblygu gweithlu'r dyfodol
- Datblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu

3.4. Llesiant Amgylcheddol

- Cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad
- Cymunedau'n diogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol

3.5. Byw'n Dda

- Datblygu cymunedau mwy diogel
- Iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl
- Pobl yn byw'n annibynnol

² Gallwch ddarllen dogfennau asesu llesiant yma [Hwb Cwm Taf](#).

4. Plant yn cael y dechrau gorau i'w bywyd³

Mae plant yn cael profiad cynnar cadarnhaol i sicrhau eu bod yn barod i ddysgu, yn barod ar gyfer yr ysgol ac yn cael cyfleoedd da mewn bywyd.

- 4.1. Mae'r hyn sy'n digwydd i blant yn ystod eu blynyddoedd cynharaf yn allweddol i ddeilliannau bywyd fel oedolyn. Caiff hyn bellach ei gefnogi gan amrywiaeth eang o dystiolaeth ymchwil o arbenigwyr addysg, iechyd, cyfiawnder ac economaidd. Mae'r nod llesiant hwn yn ymwneud â rhoi'r dechrau gorau posibl i fywydau'n plant, a'u gosod ar lwybr sy'n arwain at ddeilliannau cadarnhaol yn ddiweddarach yn eu bywyd.
- 4.2. Mae gwella cefnogaeth yn y blynyddoedd cynnar hefyd yn hanfodol i fynd i'r afael ag achosion craidd profiadau croes yn ystod plentyndod, y gwyddom eu bod yn cael effaith niweidiol ar iechyd a llesiant yn y dyfodol. Rydym yn diffinio'r blynyddoedd cynnar fel cyn geni i 7 mlwydd oed. Mae'r diffiniad eang hwn yn cydnabod pwysigrwydd beichiogrwydd o ran dylanwadu deilliannau a bod y pontio i ysgol gynradd yn gyfnod allweddol ym mywyd plentyyn.
- 4.3. Mae rôl allweddol gan rieni a gofalwyr wrth greu amgylchedd yn y cartref sy'n meithrin datblygiad cynnar ac yn mynd i'r afael â rhwystrau at ddysgu sydd yn effeithio'n arbennig ar blant a phobl ifanc â llai o fantais. Mae rhieni ym Merthyr Tudful yn cydnabod fod ganddynt gyfrifoldeb a rennir gydag ysgolion i helpu eu plant i ddatblygu sgiliau, ond mae'r diffyg hyder yn eu galluoedd yn gallu atal rhai rhag gwneud hynny.
- 4.4. Mae'r nod llesiant hwn yn cynnig dull gweithredu holistaidd a chynaliadwy i ddiwallu anghenion llesiant plant ifanc. Dylai anghenion o'r fath gael eu dehongli'n eang a chwmpasu chwarae, dysgu, perthnasoedd cymdeithasol ac emosiynol, llesiant corfforol a meddyliol. Tra bo'r dull gweithredu hwn yn bwysig i bob plentyyn, fe fydd o fudd arbennig i blant sy'n wynebu anfantais neu sydd mewn risg uchel o ddeilliannau tlawd yn ddiweddarach mewn bywyd. Ymhlith y cydrannau allweddol i gefnogi datblygiad cadarnhaol yn y blynyddoedd cynnar mae:
 - Amgylchedd cartref gan blant sy'n meithrin ac yn ysgogi
 - Mynediad gan blant i addysg o ansawdd uchel cyn ysgol ac yn yr ysgol
 - Helpu mamau i gael iechyd mamol dda
 - Helpu rhieni a gofalwyr wella eu galluoedd i gefnogi dysgu eu plant
- 4.5. Mae risgiau deilliannau tlotach i blant a theuluoedd yn cydberthyn yn gryf i ffactorau gwaelodol, sef tlodi yn bennaf a diffyg sgiliau rhianta a gwybodaeth yn ogystal ag addysg. Mae straen ehangach ar rieni a theuluoedd fel camddefnyddio sylweddau, dyled, tai gwael a diffyg cyflogaeth hefyd yn gallu effeithio ar ansawdd profiad y blynyddoedd cynnar ac felly effeithio ar ddatblygiad.

³ Mae'r nod llesiant hwn yn cydnabod hawl pob plentyyn ifanc i gael perthnasoedd o ansawdd uchel, ac amgylcheddau a gwasanaethau a fydd yn cyfrannu'n gryf at hwyrddo a chefnogi hawliau plant yn ôl diffiniad y CU Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

4.6. Rhaid i'r dechrau gorau mewn bywyd weithio ochr yn ochr â'n nodau llesiant eraill sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau gwaelodol hyn, yn benodol:

- Mae plant a phobl ifanc wedi eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus
- Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: Datblygu gweithlu'r dyfodol
- Iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl

5. Mae plant a phobl ifanc wedi eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus

Plant a phobl ifanc yn datblygu'r wybodaeth, sgiliau a'r priodoleddau y bydd eu hangen arnynt i ffynnu mewn bywyd, dysgu a gwaith.

- 5.1. Y nod hwn yw'r cam nesaf yn dilyn y blynyddoedd cynnar ac mae'n parhau â'r egwyddor o roi gwerth ar fuddion ehangach y gall dysgu gynnig i'r unigolyn, i gymdeithas a chymunedau ac i'r economoi. Y mae'n rhan o fframwaith i ddangos sut mae'r holl gydrannau perthnasol i'n systemau addysg a dysgu yn gallu cyfrannu i roi cronfa sgiliau i Ferthyr Tudful a fydd yn gwella llesiant economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- 5.2. Mae addysg person ifanc, o'r blynyddoedd cynnar drwy ei addysg orfodol, yn gosod y seiliau ar gyfer sgiliau bywyd a gwaith. Bydd yr hyn y maen nhw'n ei ddysgu a'r sgiliau y byddant yn eu caffael yn eu helpu i wella eu bywydau eu hunain. Mae addysg wedi dyfod yn un o ddangosyddion cliraf deilliannau bywyd, fel cyflogaeth, incwm a statws cymdeithasol, ac mae'n rhagfynegydd i agweddau a llesiant.
- 5.3. Mae llesiant wedi ei gysylltu'n gryf â chyrhaeddiad. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos bod gwerth i ysgolion hyrwyddo iechyd a llesiant ymhlith disgyblion. Gall hyn amrywio o gymwyseddau cymdeithasol ac emosiynol effeithiol, ethos diwylliant ac amgylchedd ysgol a chyfleoedd i ddisgyblion fod yn gorfforol actif. Mae disgyblion sydd â gwell iechyd a llesiant yn fwy tebygol o fod yn barod i ddysgu a chyflawni'n well yn academiaidd.
- 5.4. Mae hyrwyddo cyfle cyfartal wrth wraidd y nod llesiant hwn. Mae cyfarparu plant a phobl ifanc gyda'r sgiliau maen nhw eu hangen yn cynnwys y cydrannau allweddol canlynol:
 - Ysgolion yn cyfarparu disgyblion gyda lefelau uchel o sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCH
 - Ysgolion yn cyfarparu disgyblion â sgiliau cymdeithasol ac emosiynol
 - Ysgolion yn cefnogi gweithgaredd corfforol disgyblion
- 5.5. Rhaid i'r nod hwn weithio ochr yn ochr â'n nodau llesiant eraill sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar fywyd teuluol:
 - Plant yn cael y dechrau gorau i'w bywyd
 - Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: Datblygu gweithlu'r dyfodol
 - Iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl

6. Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: Datblygu gweithlu'r dyfodol

Caiff pobl â sgiliau uchel a chymwysterau uchel eu cefnogi gan economi leol sy'n gwneud defnydd llawn a chynhyrchiol o'r sgiliau hyn, ble mae ein cyflogwyr yn galw, gwerthfawrogi a gwneud y defnydd gorau o sgiliau eu gweithlu.

- 6.1. "Yn rhy aml, mae profiadau pobl ynghylch ceisio dod allan o dlodi yn adrodd stori ynghylch rhwystrau a maglau yn hytrach na ffyrdd allan"⁴. Mae hyn yn adleisio'r heriau a brofwyd gan bobl ddi-waith yng Nghwm Taf, a oedd yn siarad am gyfleoedd cyflogaeth annigonol a nifer o rwystrau i gyflogaeth yn enwedig y diffyg cefnogaeth ddefnyddiol neu arweiniad.
- 6.2. Her allweddol ym Merthyr Tudful yw helpu pobl i ddatblygu eu hadnoddau (sgiliau, gwybodaeth ayb) a mynd i'r afael â'r rhwystrau maen nhw'n eu profi fel eu bod nhw'n gallu dod yn rhan o weithlu'r dyfodol. Bydd y nod llesiant hwn yn canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud oddi fewn i'n cymunedau i wella lefel sgil y gweithlu.
- 6.3. Mae ymchwil yn dangos fod pobl sy'n adrodd nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau addysgiadol yn fwy tebygol o gael incwm cymharol isel ac mae pobl nad ydynt mewn unrhyw gyflogaeth a heb unrhyw gymhwyster yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithredol. Mae hyn yn bwysig oherwydd mae cyfradd gymharol uchel o bobl ym Merthyr Tudful heb unrhyw gymwysterau, mae angen i ni wella sgiliau cyflogadwyedd i'r rheini sydd heb swydd. Ymhlith y cydrannau allweddol i gefnogi datblygu gweithlu'r dyfodol mae:
 - Pobl yn cael cyfleoedd cyflogaeth
 - Pobl â'r sgiliau sylfaenol i gael mynediad at raglenni dysgu a hyfforddi
 - Pobl â'r sgiliau a'r cymwysterau sy'n addas i anghenion newidiol cyflogwyr
- 6.4. Mae risgiau deilliannau tlotach i bobl â sgiliau isel neu ddim sgiliau yn cydberthyn yn gryf i'r tebygolrwydd eu bod mewn gwaith tâl isel; yn profi tlodi mewn gwaith a gwytnwch is wrth ddelio â materion neu broblemau. Mae tystiolaeth yn dangos hefyd bod deilliannau iechyd corfforol a meddyliol tlotach yn aml yn rhan o brofiad y rheini â sgiliau isel neu heb ddim sgiliau.
- 6.5. Mae gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful yn gorfod gweithio ochr yn ochr â'n nodau llesiant eraill sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau gwaelodol hyn, yn benodol:
 - Plant yn cael y dechrau gorau i'w bywyd

⁴ JRF (2016) *Monitoring Poverty and Social Exclusion 2016*, Joseph Rowntree Foundation

7. Datblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu

Mae datblygiad sy'n integreiddio adfywio â dylunio trefol cynaliadwy yn gwella'r amgylchedd adeiledig ac yn cryfhau'r amgylchedd naturiol.

- 7.1. Gall amgylchedd adeiledig a naturiol gael effaith ddwys ar ymddygiad a chyfleoedd pobl ac effaith sylweddol ar eu llesiant, yn enwedig ble maen nhw'n byw a gweithio. Mae'r nod llesiant hwn yn canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud yn ein cymunedau i ddatblygu amgylchedd ac isadeiledd sy'n hwyluso twf cymunedau ac economi leol gadarn.
- 7.2. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu fod amgylchedd trefol sy'n cael ei reoli'n dda a gwasanaethau lleol o ansawdd uchel yn bwysig i greu amodau sy'n ddeniadol i fuddsoddwyr busnes, ymwelwyr a phreswylwyr lleol fel ei gilydd. Mae datblygiad sy'n gynaliadwy yn gallu helpu i adeiladu gwytnwch a chapasiti wrth addasu i newid yn yr hinsawdd gan sicrhau fod canol trefni a chymunedau'n ddeniadol, yn hyfyw ac yn cael eu diogelu'n well.
- 7.3. Mae'r nod llesiant hwn yn cynnig dull gweithredu holistaidd a chynaliadwy i anghenion datblygu amgylcheddol ac isadeiledd ym Merthyr Tudful. Dylai anghenion o'r fath gael eu dehongli'n eang a chwmpasu ynni adnewyddadwy a charbon isel, trafndiaeth gynaliadwy, tai amrywiol, addysg, manwerthu, isadeiledd gwyrdd yn cynnwys gwagleoedd agored bioamrywiol. Gall mynediad at wasanaethau lleol o ansawdd uchel, amwynderau a chymunedau diogelach ddenu buddsoddi mewnol, cynyddu gwariant ymwelwyr a helpu i dyflu'r economi leol. Ymhlith y cydrannau allweddol i gefnogi datblygu'r amgylchedd ac isadeiledd mae:
 - Pobl yn cael mynediad at opsiynau trafndiaeth hyblyg, integredig a chynaliadwy
 - Rhieni a gofalwyr yn cael opsiynau gofal plant hyblyg
 - Tir addas a ddatblygwyd eisoes sy'n darparu cyflenwad amrywiol o dai
 - Atgyfnerthu ac arallgyfeirio'r economiau trefol a gwledig
- 7.4. Mae llifogydd a digwyddiadau tywydd eithafol sy'n difrodi asedau ac yn amharu ar weithrediadau busnes yn gosod y risg mwyaf i fusnesau Cymru heddiw ac yn y dyfodol. Mae tystiolaeth yn dangos y gall dylunio o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy ac yn gynhwysol eirioli'r effeithiau a ragfynegir gan newid yn yr hinsawdd.
- 7.5. Rhaid i ddatblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnesau'n ffynnu weithio ochr yn ochr â'n nodau llesiant eraill, yn benodol:
 - Creu swyddi o werth uchel ar gyfer Merthyr Tudful
 - Cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad
 - Cymunedau'n diogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol

8. Cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad⁵

Mae pobl, sy'n falch o dirlun eithriadol yr ardal, yn treulio amser yn yr awyr agored yn rheolaidd mewn gwagleoedd gwyrdd, hygyrch o ansawdd uchel. Mae cymunedau'n helpu i wella eu hardaloedd lleol, dysgu sgiliau newydd, adeiladu bondiau cymdeithasol cryf a helpu bywyd gwyllt i ffynnu.

- 8.1. Mae'r nod llesiant hwn yn canolbwyntio ar y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda'n cymunedau i wella a hyrwyddo'r amgylchedd naturiol a chefn gwlad. Mae hyn oherwydd bod ymchwil yn dangos fod amgylchedd naturiol iach a chefn gwlad yn darparu amrywiol fanteision i bobl a bywyd gwyllt - o'r aer gwell, dŵr ac ansawdd tir, diogelu cynefin a gwell bioamrywiaeth i oblygiadau manteisiol ar gyfer iechyd corfforol ac iechyd meddwl.
- 8.2. Bydd y ffordd yr ydym yn ymddwyn tuag at yr amgylchedd naturiol a chefn gwlad yn benderfynyn tyngedfennol i ddyfodol cynaliadwy ym Merthyr Tudful, achos caiff manteision gwella ein hamgylchedd naturiol eu teimlo ar draws ein holl nodau llesiant. Rydym yn diffinio'r amgylchedd naturiol a chefn gwlad fel yr holl wagle gwyrdd sydd oddi fewn i ffiniau'r awdurdod lleol. Mae'r diffiniad eang hwn o'r amgylchedd naturiol a chefn gwlad yn cydnabod ei bwysigrwydd o ran natur mewn amgylcheddau trefol a gwledig.
- 8.3. Mae'r nod llesiant hwn yn cynnig dull gweithredu holistaidd a chynaliadwy i gyflawni anghenion llesiant amgylcheddol ym Merthyr Tudful. Dylai'r anghenion hyn gael eu dehongli'n eang gan gwmpasu gwagle gwyrdd o ansawdd a chysylltedd, diogelwch a bioamrywiaeth cynefin, ecosystemau gwydn, cymeriad tirlun ac atal llygredd. Tra bo'r dull gweithredu hwn yn bwysig i'r amgylchedd yn ei gyfanrwydd, fe fydd o fudd penodol i ardaloedd ble mae yna broblemau neu risgiau amgylcheddol allweddol. Ymhlith y cydrannau allweddol i gymunedau ddiogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad mae:
 - Integreiddio gwarchod tirlun, rheoli a chynllunio
 - Cadw difrod amgylcheddol i'r lefel isaf drwy atal llygredd
 - Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o ddeunyddiau ac adnoddau drwy hierarchaeth gwastraff
 - Datblygu seilwaith cysylltiedig gwyrdd a manau agored o ansawdd da, bioamrywiol
 - Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ynni adnewyddadwy a charbon isel
- 8.4. Mae amgylchedd a ddiraddiwyd yn golygu bydd gan ein preswylwyr, cymunedau a busnesau wytnwch is i risgiau amgylcheddol. Gan fod yr amgylchedd yn ffactor gwaelodol ac yn dylwanwadu ar lawer o nodau llesiant eraill, mae'r risgiau y mae amgylchedd

⁵ Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau gan gymryd i ystyriaeth amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau; cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau; y raddfa ecosystemau; cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a gweithrediad) a'r gallu i addasu ecosystemau.

diraddedig yn eu cyflwyno hefyd yn cynnwys amrywiaeth o safbwyntiau economaidd, cymdeithasol, iechyd, dioglewch cymunedol a diwylliannol.

8.5. Rhaid i gymunedau sy'n diogelu, gwella a hyrwyddo'r amgylchedd naturiol a chefn gwlad weithio ochr yn ochr â'n nodau llesiant eraill i fynd i'r afael â'r ffactorau gwaelodol hyn, yn benodol:

- Datblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu
- Cymunedau'n diogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol
- Iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl

9. Cymunedau'n diogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol

Bydd dathlu llwyddiant, rhoi gwerth ar ein treftadaeth, diwylliant ac iaith yn cryfhau ein hunaniaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- 9.1. Canolbwynt y nod llesiant hwn yw defnyddio asedau cymunedol cyfredol i gyflenwi cyfoeth o fanteision iechyd i bobl Merthyr Tudful. Ceir dadl gref i awgrymu bod rhoi gwerth ar ein treftadaeth, diwylliant ac iaith yn gallu dod â gwelliannau i lesiant unigolion a chymunedau.
- 9.2. Mae unigolyddiaeth Merthyr Tudful wedi ei siapio gan ein gorffennol diwydiannol a'r gwahanol gymunedau sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gartref iddynt. Bydd y modd yr ydym ni'n gweithio gyda'r cymunedau hyn yn ffactor hanfodol wrth gyflenwi'r potensial helaeth sydd gan dreftadaeth ac asedau diwylliannol Merthyr Tudful i'w cynnig i ni.
- 9.3. Pan fydd pobl leol yn siarad am ddiwylliant, caiff ei ddisgrifio'n aml fel cyfle am ddathliad. Mae'r modd y caiff y diwylliant hwn ei ddathlu yn amrywio yn sgil yr adeiladau hanesyddol a ddaeth yn ôl i gael eu defnyddio fel Redhouse, Soar a Thŷ Injan Dowlais i leoliadau modern fel y nifer o glybiau rygbi, canolfannau cymunedol a chlwb pêl-droed Merthyr Tudful a ailwampwyd. Mae adfywiad canol y dref wedi darparu ased ychwanegol ar gyfer rhoi cartref i weithgareddau diwylliannol sy'n dod â phobl at ei gilydd yn cynnwys Merthyr Rising, Merthyr ger y môr, Gŵyl yr "Awesome Chilli Festival".
- 9.4. Yn ystod ein gweithgareddau ymgysylltu, cyfeiriwyd at Barc Cyfarthfa yn rheolaidd fel rhywbeth da yn y gymuned. Mae'r ffordd mae pobl yn defnyddio'r parc yn amrywio o gerdded, chwilio am borthiant, pysgota a pheintio tirluniau, i fynychu digwyddiadau fel y theatr awyr agored, cyngherddau ac arddangosiadau tân gwyllt. Beth bynnag yw'r defnydd ohono, roedd yr effaith a gafodd ar ymwybyddiaeth pobl o lesiant yn cael ei ardystio'n gyffredinol.
- 9.5. Cafodd grwpiau cymunedol sy'n dod â phobl at ei gilydd eu cydnabod hefyd fel rhywbeth da gan y rheini oedd yn cymryd rhan yn ein gweithgareddau ymgysylltu. Cafwyd ymdeimlad fod y traddodiad o grwpiau cymunedol yn mwynhau ailymddangosiad wrth i'r canolbwynt ar lesiant ddatblygu. Mae gwneud cysylltiadau cymdeithasol gyda phobl eraill yn uniongyrchol gydberthyn i wella llesiant corfforol a meddyliol a gall helpu i wrthsefyll y twf mewn unigedd cymdeithasol ac unigrwydd a brofir gan lawer o wahanol bobl sy'n byw yn y gymuned.
- 9.6. Mae defnyddio ein tirlun a'n hanes i annog pobl i fod yn fwy corfforol actif yn ffordd wych o wella llesiant. Mae Cyfarthfa'n darparu cefndir i Wyl Gerdded Cymoedd Cymru, sy'n arddangos hanes Merthyr Tudful ar y cyd â phrydferthwch naturiol a cherdded.
- 9.7. Yn ychwanegol at fuddion iechyd a llesiant, gall ein treftadaeth a'n diwylliant helpu i roi hwb i lewyrch y fwrdeistref sirol drwy ddenu ymwelwyr a thwristiaid sy'n cefnogi buddsoddi mewnol, darparu cyflogaeth a chynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd. Yn

ychwanegol, mae ymchwil yn dangos fod gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn fantais i bobl sy'n chwilio am swydd yng Nghymru.

- 9.8. Mae'r nod llesiant hwn yn cynnig dull gweithredu holistaidd a chynaliadwy o ddiwallu anghenion diwyllianol ym Merthyr Tudful. Dylai'r anghenion hynny gael eu dehongli'n eang gan gwmpasu twristiaeth, rheoli cyrchfan, cadwraeth a chadw asedau ac iaith, digwyddiadau lleol a chyfranogiad cymunedol. Ymhlith y cydrannau allweddol i gymunedau ddiogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a diwylliant mae:
- Cefnogi cyfleusterau cymunedol cyfredol a datblygiadau a arweinir gan y gymuned
 - Cefnogi twristiaeth addas, hamdden a datblygiadau hamdden addas
 - Hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol oddi fewn i'n cymunedau
 - Hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg
- 9.9. Rhaid i gymunedau'n diogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol weithio ochr yn ochr â'n nodau llesiant eraill, sef yn benodol:
- Plant yn cael y dechrau gorau i'w bywyd
 - Datblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu
 - Datblygu cymunedau mwy diogel

10. Datblygu cymunedau mwy diogel

Mae pobl sy'n byw mewn cymunedau cysylltiedig yn teimlo'n ddiogel ble maen nhw'n byw, gweithio neu'n treulio eu hamser hamdden.

- 10.1. Mae teimlo'n ddiogel yn dylanwadu ar sut mae pobl yn gwerthfawrogi eu cymuned, ac mae'n bwysig i ansawdd bywyd pobl, gan lunio'r gwahaniaeth yn aml rhwng pobl sydd eisiau byw ac aros yn eu cymdogaeth neu beidio. Ceir tystiolaeth i awgrymu fod adeiladu hyder a gwytnwch mewn unigolion a chymunedau'n gam pwysig tuag at wella llesiant, ble mae pobl iachach a hapusach yn fwy tebygol o gyfrannu'n gadarnhaol i'w cymunedau a'r gymdeithas.
- 10.2. Mae diogelwch cymunedol yn cynnwys sawl agwedd o fywyd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddiffiniad cyffredin cytunedig o ddiogelwch cymunedol nac eglurhad ar yr amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau sy'n cyfrannu at eu cyflenwi. Rydym yn diffinio cymunedau mwy diogel o safbwynt cymdeithasol fel cymunedau sy'n rhydd o drosedd, dioddefwyr trosedd, neu'r rheini sy'n byw mewn ofn o drosedd. Mae'r diffiniad hwn yn gadael i ni ganolbwyntio ar agweddau cymdeithasol diogelwch sy'n effeithio'n groes ar ansawdd bywyd a llesiant pobl.
- 10.3. Canolbwynt y nod llesiant hwn yw'r gwaith a wnawn i ddatblygu cymunedau mwy diogel gan gwmpasu cadw ein plant a'n hoedolion yn ddiogel ac yn rhydd o niwed, gan greu man ble mae pobl yn gwerthfawrogi eu cymdogaeth a'r gymuned. Ymhlith y cydrannau allweddol ar gyfer datblygu cymunedau mwy diogel mae:
 - Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ac sydd mewn risg o niwed
 - Mynd i'r afael â'r niwed a achosir drwy gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol
 - Mynd i'r afael â thrais yn erbyn gwragedd a merched
 - Rheoli troseddswyr (pobl ifanc i fyny at oedolion)
 - Ymddygiad gwrthgymdeithasol
 - Cydlynid cymunedol
- 10.4. Rhaid i ddatblygu cymunedau mwy diogel weithio ochr yn ochr â'n nodau llesiant eraill, yn benodol:
 - Plant yn cael y dechrau gorau i'w bywyd
 - Cymunedau'n diogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol
 - Iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl
 - Pobl yn byw'n annibynnol
- 10.5. Yng nghyd-destun ehangach cymunedau diogel, mae ein nodau llesiant yn darparu canolbwynt ar yr elfennau angenrheidiol i bobl a chymunedau i ddatblygu a chynnal amgylchedd glân a bioamrywiol, wedi ei oleuo'n dda, yn rhydd o sbwriel, graffiti a thipio anghyfreithlon:
 - Datblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu
 - Cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol a chefn gwlad

11. Iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl

Mae pobl sy'n mabwysiadu ymddygiad iach yn gynharach yn eu bywyd yn fwy iach ac yn teimlo'n dda ac yn gweithredu'n well.

- 11.1. Ceir sawl rhagfynegydd llesiant ac mae'r nod hwn yn canolbwyntio ar ddau ohonynt: iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Mae'r cyswllt rhwng iechyd corfforol ac iechyd meddwl yn ddiymwad. Caiff y naill effaith ar y llall. Gall iechyd corfforol gwael arwain at iechyd meddwl gwael ac i'r gwrthwyneb. Yn yr un modd ag y gall iechyd corfforol da wella cyflwr ein meddwl, gall meddwl cryf ac iach wella'n gallu ni'n fawr i ymdopi ag anhwylderau corfforol.
- 11.2. Dengys ymchwil fod lefelau llesiant goddrychol yn amrywio dros gwrs bywyd, gan oleddu yn ystod blynyddoedd canol yr ardegau, canol bywyd, ac unwaith yn rhagor ymhlith yr hynaf o'r henoed. Mae'r cysyniad o iechyd cyffredinol yn parhau'n un o'r rhagfynegiadau cryfaf o lesiant goddrychol ymhlith oedolion ac mae pobl sy'n gorfforol actif ac yn fwy tebygol o fod ag iechyd cyffredinol ac iechyd meddwl sydd wedi gwella.
- 11.3. Ceir corff o dystiolaeth ar gynnydd sy'n dynodi fod natur yn darparu gwerth ychwanegol at fanteision y gwyddom amdany'n nhw a ddaw o fod yn gorfforol actif. Yn lleol, mae pobl wedi dweud wrthym bod ganddynt gydgysylltiad cryf rhwng yr awyr agored a llesiant. Fodd bynnag, gwnaeth pobl hefyd rannu eu pryderon ynghylch ansawdd, mynedadwyedd a'r ymwybyddiaeth o wagle gwyrdd mewn ardaloedd trefol a chefn gwlad yn ehangach.
- 11.4. Canolbwynt y nod llesiant hwn yw ysgogi a chefnogi pobl a chymunedau i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol o ran corff ac iechyd meddwl. Bydd mabwysiadu'r ymddygiad hwn yn gynnar mewn bywyd yn ein helpu ni i sicrhau buddion hirdymor a chynaliadwy ar gyfer anghenion llesiant corfforol ac meddwl pobl ym Merthyr Tudful.
- 11.5. Er mwyn sicrhau dull gweithredu holistaidd i ddiwallu'r nod hwn, dylai anghenion iechyd corfforol a meddyliol gael eu dehongli'n eang a chwmpasu'r teulu a'r gymdogaeth, ysgol a blynyddoedd yr ardegau, cael swydd dda, cartref a pherthnasoedd cymdeithasol cadarnhaol. Ymhlith y cydrannau allweddol ar gyfer iechyd da gan bobl o ran corff a meddwl mae:
 - Hyrwyddo ymddygiad iach o oedran ifanc
 - Mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol plentyndod
 - Cynyddu lefelau o weithgaredd corfforol
- 11.6. Rhaid i bobl sydd ag iechyd da o ran corff a meddwl weithio ochr yn ochr â'r holl nodau llesiant.

12. Pobl yn byw'n annibynnol⁶

Mae gan bobl, sydd wedi eu hymrymuso i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, y gefnogaeth, cyngor a chymorth priodol i ddiwallu eu hanghenion personol, byw'n ddiogel a chael mynediad at y cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

- 12.1. Canolbwynt y nod hwn yw helpu pobl ag anghenion cefnogi penodol i fyw bywydau annibynnol ac iach yn eu cymunedau yn hirach. Bydd y math o gefnogaeth ofynnol i hyrwyddo mwy o annibyniaeth a llesiant yn gwahaniaethu ar gyfer grwpiau amrywiol yn y gymuned.
- 12.2. O ran pobl anabl (o bob oed) mae'r nod hwn yn ymwneud â chael gwared ar rwystrau sy'n atal cyfranogiad llawn ym mhob agwedd o gymdeithas a hyrwyddo hawliau a chynhwysiant llawn pobl anabl. Mae tystiolaeth ymchwil o'r Swyddfa Materion Anableded yn awgrymu fod byw'n annibynnol yn darparu buddion sylweddol fwy ar lefel unigol na ffurfiau confensiynol o ddarpariaeth gwasanaeth. Ar lefel cyflenwi gwasanaeth, mae buddion yn cynnwys lleihau costau o ran cyflenwi mecanweithiau cefnogi annibynnol.
- 12.3. O ran pobl hŷn, mae'r nod hwn yn ymwneud â mynd i'r afael â'r gofal a'r gefnogaeth sy'n ofynnol iddynt gael aros yn eu cartrefi eu hunain, a datblygu capasiti lleol oddi fewn i gymunedau fel bod pobl yn gallu cysylltu ag eraill ac ymgysylltu fwy ym mywyd cymunedol a chyhoeddus. Ceir tystiolaeth fod pobl hŷn sy'n byw'n lleol am aros yn eu cartrefi eu hunain gyhyd ag sy'n bosibl. Ar y cyd â buddion diriaethol fel hyrwyddo llesiant sy'n gysylltiedig â dewis a rheoli, ac agweddau eraill o fwynhau bywyd annibynnol i bobl hŷn, ceir hefyd lai o ddibyniaeth ar ffurfiau sefydliadol o ddarpariaeth gwasanaeth gan arwain at leihau costau.
- 12.4. Mae ein hymgysylltiad â phobl yn lleol sydd â ffactorau allweddol dynodedig i gefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn cynnwys:
 - Cyfathrebu ffynonellau cyngor, cymorth a chefnogaeth yn glir ac yn hygyrch
 - Casglu safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth i lywio cynllunio a chyflenwi gwasanaeth
 - Gwasanaethau sy'n rhoi'r gallu i bobl fyw yn eu cartrefi eu hunain
 - Mynediad gwell i wasanaethau o ansawdd a chyfleusterau i gefnogi cymdeithas decach i bobl â nodweddion gwarchoddedig
- 12.5. Mae sicrhau fod pobl yn gallu byw bywydau annibynnol am yn hirach yn gofyn am newidiadau cymdeithasol ehangach i sicrhau llwyddiant y nod hwn. Er mwyn creu'r newidiadau hyn, rhaid i bobl sy'n byw'n annibynnol weithio ochr yn ochr â'n nodau llesiant eraill yn benodol:
 - Plant yn cael y dechrau gorau i'w bywyd
 - Datblygu'r amgylchedd a'r isadeiledd fel bod busnes yn ffynnu
 - Cymunedau'n diogelu, datblygu a hyrwyddo ein treftadaeth a'n hasedau diwylliannol

⁶ Mae'r nod llesiant hwn yn cyfrannu at Gonfensiwn CU ar Hawliau Personau ag Anabledau, sy'n cynnwys Erthygl 19: yr hawl i fyw'n annibynnol.

- Datblygu cymunedau mwy diogel

12.6. Yng nghyd-destun ehangach pobl yn byw bywydau annibynnol, mae ein nodau llesiant eraill yn canolbwyntio ar yr elfennau sydd eu hangen ar bobl a chymunedau er mwyn iddynt ddyfod yn fwy hunan gynhaliol yn benodol:

- Mae plant a phobl ifanc wedi eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus
- Gwneud i sgiliau weithio i Ferthyr Tudful: Datblygu gweithlu'r dyfodol

13. Atodiad I: Saith Nod Llesiant

| NOD | Disgrifiad o'r nod |
|--|--|
| Cymru ffyniannus/ lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, garbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau atyniadol hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

14. Atodiad II: Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy

Yn y Ddeddf hon, mae unrhyw gyfeiriad at gorff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth “yn unol ag egwyddor datblygiad cynaliadwy” yn golygu fod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau fod anghenion cyfredol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau wrth wneud penderfyniadau eu bod yn ystyried yr effaith y gallai hynny ei gael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

Ceir pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi cymhwyso egwyddor datblygiad cynaliadwy. Bydd dilyn y pum ffordd hyn o weithio yn ein helpu ni i gydweithio'n well, gan osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hir dymor yr ydym yn eu hwynebu.



Hir Dymor

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion byr dymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hir dymor.



Ataliad

Sut gallai gweithredu i atal problemau rhag ddigwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu nodau.



Integreiddio

Ystyried sut gall nodau llesiant cyrff cyhoeddus gael effaith ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu nodau eraill, neu ar nodau cyrff cyhoeddus eraill.



Cydweithio

Gweithredu wrth gydweithio â pherson arall (neu wahanol rannu o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei nodau llesiant.



Ymwneud

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau fod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei wasanaethu.